**RHYBUDD o Benderfyniadau'r y cyfarfod hybrid o Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd ar Ddydd Mercher, 1 Ebrill 2026.**

***[Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig, a bydd cofnodion llawn o'r cyfarfod gerbron y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion i'w cymeradwyo.***

***Mae'r dogfennau ar gyfer y cyfarfod uchod ar wefan y Cyngor ynghyd â gweddarllediad o'r gweithgareddau].***

| | |
|---|---|
| **Yn bresennol:** | Y Cynghorydd Ken Taylor (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Jeff M Evans, Neville Evans, Douglas M Fowl Kenneth P Hughes, John Ifan Jones, Robert Ll Jones, Jackie Euryn Morris, Dafydd Roberts a Robin Williams<br><br>Cynghorydd Nicola Roberts - Aelod Portffolio Cynllunio, Gwa Cyhoedd a Newid Hinsawdd. |
| **Ymddiheuriadau:** | Y Cynghorwyr Geraint Bebb a Glyn Haynes<br>Y Cynghorydd Dyfed Wyn Jones (mewn perthynas â chais 7.1) |
| **Hefyd yn bresennol:** | Aelodau Lleol: Cynghorwyr Aled Morris Jones (ar gyfer ceisiadau 12.1 a 12.2), Sonia Williams (ar gyfer cais 7.1)<br><br>Y Cynghorydd Derek Owen (gadawodd y cyfarfod am 1.50pm) |

1.00 o'r gloch yp – 2.30 o'r gloch yp

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **2 DATGANIAD O DDIDDORDEB** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | Fe wnaeth y Cynghorydd Neville Evans ddatgan diddordeb personol a oedd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â chais 7.1 - tir ger Glasynys, Tyddyn Mostyn, Porthaethwy gan ei fod yn aelod o'r Pwyllgor Gwaith sydd wedi trafod y datblygiad. Bu'r Cynghorydd Evans adael y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r bleidlais ddilynol.<br><br>Bu'r Cynghorydd John Ifan Jones ddatgan diddordeb personol a oedd yn rhagfarnu yng nghais 12.3 - Fferm Tŷ Coch, Rhostrehwfa gan ei fod yn ffrindiau gyda'r ymgeisydd a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r bleidlais. |

| | |
|---|---|
| | Fe wnaeth y Cynghorydd Dafydd Roberts ddatgan diddordeb personol a oedd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â chais 7.1 - tir ger Glasynys, Tyddyn Mostyn, Porthaethwy gan ei fod yn aelod o'r Pwyllgor Gwaith sydd wedi trafod y datblygiad. Bu'r Cynghorydd Roberts adael y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r bleidlais ddilynol.<br><br>Fe wnaeth y Cynghorydd Robin Williams ddatgan diddordeb personol a oedd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â chais 7.1 - tir ger Glasynys, Tyddyn Mostyn, Porthaethwy gan ei fod yn aelod o'r Pwyllgor Gwaith sydd wedi trafod y datblygiad. Bu'r Cynghorydd Evans adael y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r bleidlais ddilynol. |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **3 COFNODION** |
| PENDERFYNIAD | Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd ar 4 Mawrth, 2026 a chadarnhawyd eu bod yn gywir. |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 YMWELIAD SAFLEOEDD** |
| PENDERFYNIAD | Cadarnhawyd bod cofnodion yr Ymweliadau Safle a gynhaliwyd ar 18 Mawrth, 2026 yn gywir. |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **5 SIARAD CYHOEDDUS** |
| PENDERFYNIAD | Cafwyd Siaradwyr Cyhoeddus mewn perthynas â cheisiadau 7.1 a 12.3. |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **6 CEISIADAU FYDD YN CAEL EU GOHIRIO** |
| PENDERFYNIAD | Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau o'r fath yn ystod y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion. |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **7 CEISIADAU'N CODI** |
| PENDERFYNIAD | **7.1 FPL/2024/228 - Cais llawn ar gyfer codi cyfleuster gofal ychwanegol a chartref gofal preswyl gyda chyfleusterau cymunedol, creu mynedfa newydd i gerbydau, gwaith i wella'r briffordd, dymchwel yr annedd bresennol ar y safle** |

| | |
|---|---|
| | **ynghyd â datblygiad cysylltiedig ar dir ger Glasynys, Tyddyn Mostyn, Porthaethwy.**<br><br>**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog, yn amodol ar yr amodau cynllunio yn yr adroddiad.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **8 CEISIADAU ECONOMAIDD** |
| PENDERFYNIAD | **Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau o'r fath yn ystod y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **9 CEISIADAU AM DY FFORDDIADWY** |
| PENDERFYNIAD | **Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau o'r fath yn ystod y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **10 CEISIADAU'N GWYRO** |
| PENDERFYNIAD | **Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau o'r fath yn ystod y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **11 CYNIGION DATBLYGU A GYFLWYNWYD GAN GYNGHORWYR A SWYDDOGION** |
| PENDERFYNIAD | **11.1 - FPL/2025/9 - Cais llawn ar gyfer dymchwel yr annedd presennol a'r strwythurau cyfagos, codi annedd newydd ynghyd â gosod system trin carthffosiaeth newydd yn Marian, Llanddeusant.**<br><br>**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog, yn amodol ar yr amodau cynllunio yn yr adroddiad.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **12 GWEDDILL Y CEISIADAU** |
| PENDERFYNIAD | **12.1 FPL/2025/246 - Cais llawn ar gyfer creu basn cadw dŵr wyneb yn Stad Ddiwydiannol Amlwch** |

| | |
|---|---|
| | **PENDERFYNWYD dirprwyo'r awdurdod i'r Swyddogion i gymeradwyo'r cais yn dilyn ymgynghoriad â Chyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru ar y newidiadau a dderbyniwyd i'r cais.**<br><br>**12. 2 FPL/2026/15 - Cais llawn ar gyfer addasu strwythur y ffin ar berimedr Deheuol y safle datblygu, addasu lefelau'r tir ynghyd â chodi rhwyd 7 metr o uchder ar Stad Ddiwydiannol Amlwch, Amlwch.**<br><br>**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog, yn amodol ar yr amodau cynllunio yn yr adroddiad.**<br><br>**12.3 FPL/2025/223 - Cais llawn i ddymchwel yr annedd presennol a chodi annedd newydd ynghyd ag addasu'r fynedfa bresennol, gosod cyfleuster trin carthion a gwaith cysylltiedig yn Fferm Tŷ Coch, Rhostrehwfa.**<br><br>**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog, yn amodol ar yr amodau cynllunio yn yr adroddiad.**<br><br>**12.4 - FPL/2025/294 - Cais llawn ar gyfer estyniad ochr unllawr newydd, dymchwel garej ar wahân presennol, ynghyd ag ehangu'r maes parcio yn Gors Felen, Ffordd Bron Y Felin, Llangefni.**<br><br>**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog, yn amodol ar yr amodau cynllunio yn yr adroddiad.**<br><br>**12.5 FPL/2026/6 - Cais llawn ar gyfer codi Man Chwarae Amlddefnydd (MUGA) newydd ynghyd â chodi ffens ar dir ger Plas Tudur, Llangefni.**<br><br>**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog, yn amodol ar yr amodau cynllunio yn yr adroddiad.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **13 MATERION ERAILL** |

| | |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | **13.1 DEM/2025/2 – Cais i benderfynu a oes angen caniatâd blaenorol ar gyfer dymchwel modurdai yn Craig y Don, Amlwch**<br><br>**Nodwyd bod y cais wedi cael ei ganiatáu o dan Ran 31 o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredin a Ganiateir) 1995.**<br><br>**13.2 DEM/2026/3 – Cais i benderfynu a oes angen caniatâd blaenorol ar gyfer dymchwel modurdai yn Maes Llwyn, Amlwch**<br><br>**Nodwyd bod y cais wedi cael ei ganiatáu o dan Ran 31 o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredin a Ganiateir) 1995.** |